

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Gateway
OHS Limited**

30 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|---------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2. | Methodoleg | 2 |
| 3. | Cyd-destun..... | 4 |
| 4. | Crynodeb | 5 |
| 5. | Canfyddiadau | 6 |
| | Profiad y Claf | 6 |
| | Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal | 8 |
| | Ansawdd yr Amgylchedd..... | 17 |
| | Y Camau Nesaf | 19 |
| | Atodiad A..... | 20 |

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Gateway OHS Limited, 44 Cross Street, Y Fenni, NP7 5ER yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 30 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal¹. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011³. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tim Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Gateway OHS Limited yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal y Fenni, Sir Fynwy. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Gateway OHS Limited yn bractis sy'n darparu gwasanaethau deintyddol GIG yn unig. Darperir amrediad o wasanaethau gan gynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Tawelyddiad
- Ymweliadau cartref

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, pum nyrs ddeintyddol, tri therapydd deintyddol a dau dderbynydd.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC ystyried sut roedd Gateway OHS Limited yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r practis a'r safon o ofal a thriniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt ynglŷn â'u triniaeth. Roedd y practis yn gwahodd adborth gan gleifion i wella gwasanaethau.

Ar y cyfan, cawsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi gyda'r bwriad o gyflenwi gwasanaeth diogel, o ansawdd uchel i gleifion. Cawsom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel. Roedd trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig yn ddiogel. Roedd agweddau ar ddadebru a chymorth cyntaf, cyffuriau brys, gwaredu gwastraff, dadheintio a chofnodion cleifion lle'r oedd angen gwella.

Gwelsom dîm o staff ymroddedig, gofalgarn, yn canolbwyntio ar y cleifion, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer archwiliadau a gofynion recriwtio staff. Roedd agweddau ar drefniadau amddiffyn oedolion a threfniadau cwyno lle'r oedd angen gwella.

Cawsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, croesawgar, hygyrch i'r cleifion dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn gyffredinol, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r practis a'r safon o ofal a thriniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt ynglŷn â'u triniaeth. Roedd y practis yn gwahodd adborth gan gleifion i wella gwasanaethau.

Cwblhaodd deg o gleifion holiaduron cleifion i ni ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd y cleifion wedi eu cofrestru gyda'r practis am gyfnod o rhwng un mis a 24 o flynyddoedd.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y driniaeth a dderbyniwyd ganddynt yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae holl staff y practis bob amser wedi ein trin yn dda ac mae gofal ein dannedd yn wych – nid wyf yn ofni mynd at y deintydd bellach”

“Croesawgar iawn, gwresog a chyfeillgar”

“Bob amser yn teimlo ein bod yn cael croeso”.

Dywedodd mwyafriif llethol y cleifion wrthym nad oeddynt wedi cael oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd.

Pan holwyd cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaeth, dywedodd yr holl gleifion bod y tîm deintyddol wedi esbonio'r driniaeth roeddynt ei hangen yn ddigon manwl.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau arferol, a gwelsom fod yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi i'r cleifion mewn amrywiol ffyrdd, megis ar beiriant ateb y practis ac ar hysbysfyrdau yn y practis.

Cynigiodd y practis apwyntiadau arferol ac argyfwng ac roedd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm, gan gau am awr amser cinio.

Dywedodd saith allan o ddeg o gleifion nad oeddynt yn gwybod sut i gwyno. Dywedodd rhai cleifion nad oeddynt yn gwybod eu bod yn teimlo'n hyderus y medrent gael hyd i'r wybodaeth hon gan y practis pe byddai angen. Gwelsom fod y drefn gwyno wedi ei harddangos yn amlwg ar yr hysbysfyrdau yn y manau aros, mewn ffeil print mawr o wybodaeth i gleifion ac yn nhafenni

gwybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, oherwydd nifer y cleifion nad oeddynt yn gwybod am y trefniadau, gallai'r practis ystyried sut i gynyddu ymwybyddiaeth y cleifion.

Roedd y practis yn ymgymryd ag arolygon cleifion yn barhaus a rhoddwyd enghreifftiau inni o sut roedd agweddau o'r practis wedi newid mewn ymateb i adborth gan gleifion. Golygai hyn bod trefniadau yn bodoli i gael barn cleifion, yr oedd y practis yn ei defnyddio i wella'r gwasanaeth.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael ac roeddynt yn rhoi crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r practis. Roedd gan y practis wefan llawn gwybodaeth gyda gwybodaeth ddefnyddiol i'r claf. Roedd dau beth yr oedd angen eu hychwanegu at y wefan i sicrhau cydymffurfio ag 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a soniwyd wrth y prif ddeintydd am hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau cydymffurfio ag 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol trwy sicrhau bod dyddiad ar y wefan yn nodi pryd cafodd ei diweddarau ddiwethaf, a'i bod yn rhestru holl gymwysterau proffesiynol yr holl staff deintyddol proffesiynol (gan gynnwys y wlad lle cafwyd y cymhwyster dan sylw) a rhif cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, cawsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi gyda'r bwriad o gyflenwi gwasanaeth diogel, o ansawdd uchel i gleifion. Cawsom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel. Roedd trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig yn ddiogel. Roedd agweddau ar ddadebru a chymorth cyntaf, cyffuriau brys, gwaredu gwastraff, dadheintio a chofnodion cleifion lle'r oedd angen gwella.

Cyfarpar/Dogfennaeth Radiograffig

Yn gyffredinol, cawsom fod trefniadau addas yn bodoli ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennaeth berthnasol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw a phroffion ar gael ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio.

Roedd y practis wedi dilyn trefn briodol i hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffig. Ymgwymerwyd ag archwiliadau sicrhau ansawdd i fonitro ansawdd delweddau radiograffig i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn.

Dadebru a Chymorth Cyntaf

Cawsom fod polisi dadebru yn bodoli. Roedd un aelod staff yn swyddog Cymorth Cyntaf penodedig ar y safle ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd y practis hefyd yn cadw algorithmau (siartiau llif clir a hawdd eu dilyn a gynhyrchwyd gan y Cyngor Dadebru) gyda'r cyffuriau brys fel bod canllawiau ar sut i ddelio ag argyfyngau ar gael yn hawdd i'r staff. Golygai hyn bod staff wedi eu hyfforddi i ddelio ag argyfyngau meddygol cyffredinol.

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru pe byddai argyfwng meddygol (llewygu). Cawsom fod offer llwybr anadlu untro yn hen a chynghorwyd y practis i sicrhau eu bod yn gwirio dyddiadau gorffen ar gyfer cyfarpar brys. Cawsom hefyd mai dim ond masgiau i oedolion oedd yn y pecyn a oedd ar agor a heb ei selio. Golygai hyn nad oedd masgiau ocsigen i blant ar gael i'w defnyddio. Erbyn diwedd yr arolygiad, roedd y practis wedi archebu llwybrau anadlu a masgiau newydd. Fe'n hysbyswyd bod y cyfarpar wedi ei archwilio gan hyfforddwr a oedd yn cyflwyno hyfforddiant i staff y practis ar CPR (dadebru cardio-pwlmonaidd) ac nad oedd wedi nodi bod yr offer yn hen. Mae'r prif swyddog yn y practis wedi adrodd am hyn i Ddeoniaeth Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn gweithredu system effeithiol o wirio dyddiadau dod i ben cyfarpar brys ac adnewyddu cyfarpar pan fo angen. Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfarpar dadebru priodol ar gael bob amser.

Cawsom fod peth offer a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant megis padiau diffibrilio yn cael ei gadw gydag offer brys. Gall hyn arwain at staff yn ceisio defnyddio hwn mewn argyfwng gwirioneddol. Felly, cynghorwyd y practis i gadw'r cyfarpar hwn ar wahân i osgoi dryswch.

Cynghorwyd y practis i ddefnyddio'r poster ocsigen yn y pecyn i arddangos yn glir lle caiff ocsigen ei storio yn y practis er mwyn cyrraedd ato yn hawdd.

Cyffuriau brys

Roedd cyffuriau brys wedi eu trefnu'n dda a'u storio'n ddiogel mewn oergell, mewn lleoliad da. Trafodwyd storio cyffuriau yn yr oergell gyda'r prif ddeintydd, a ddywedodd wrthym fod hyn oherwydd y gallai'r ystafell fynd yn gynnes. Cynghorwyd y practis nad oedd cyffuriau brys yn elwa o gael eu storio yn yr oergell. Mewn rhai achosion, gall storio mewn oergell achosi i gyffuriau grisialu a dirywio. Nid oedd tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyffuriau yn cael eu cadw ar dymheredd priodol, gan ddilyn cyfarwyddiadau storio a nodwyd ar y cyffuriau.

Roedd system yn bodoli i fonitro dyddiadau dod i ben cyffuriau bob mis gan berson enwebedig. Roedd yr holl gyffuriau a wiriwyd gennym o fewn y dyddiad ac eithrio tri chyffur a oedd wedi eu cadw yn y pecyn cartref, a dywedwyd wrthym nad oedd y rhain yn cael eu defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Ni ddylid cynnwys unrhyw gyffuriau nad oeddynt yn cael eu defnyddio yn y pecyn cartref a dylid eu gwaredu yn ddiogel i leihau risg defnyddio'r rhain mewn argyfwng.

Roedd padiau presgripsiwn wedi eu storio'n ddiogel i rwystro mynediad heb awdurdod. Roedd system yn bodoli ar gyfer ymateb i, ac adrodd am adwaith andwyol i gyffuriau.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd contract gwaredu gwastraff clinigol yn bodoli. Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac eithrio gwaredu modelau carreg a drafodwyd gyda'r practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod modelau carreg yn cael eu gwaredu ar wahân i wastraff arall.

Roedd polisi wedi ei ddiweddarau a gweithdrefn yn bodoli ar gyfer trin amalgam yn ddiogel⁴.

Dadheintio offer a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1⁵)

Roedd y practis yn glanhau offerynnau yn y meddygfeydd ac yn defnyddio dwy ystafell ddadheintio benodol i gwblhau'r broses. Gwelsom fod staff wedi ystyried yn ofalus sut orau i drefnu prosesau dadheintio mewn man na ellid ei ddefnyddio'n hyblyg (oherwydd bod yr adeilad yn un rhestredig gradd II). Dywedodd staff wrthym eu bod yn ystyried sut y medrent symud i ddefnyddio un ystafell ddadheintio, a fyddai'n arfer orau. Arddangosodd y staff y trefniadau dadheintio roeddynt yn eu dilyn, i'n caniatáu ni i asesu sut roedd y rhain yn gweithio yn ymarferol.

Roedd staff yn cludo offerynnau rhwng meddygfeydd mewn cynwysyddion wedi eu selio ac roedd offerynnau glân yn cael eu storio'n briodol. Roedd sinciau golchi dwylo penodol ar gael yn y meddygfeydd. Roedd cyfarpar amddiffynnol personol ar gael i'r staff, er y gwelsom fod menig domestig yn cael eu defnyddio yn hytrach na menig cryfion a argymhellwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai staff ddefnyddio menig cryfion a argymhellwyd ar gyfer dadheintio offerynnau fel yr argymhellir yn WHTM 01 05.

⁴ **Amalgam.** Unrhyw aloi amrywiol mercwri gyda metalau eraill a ddefnyddir mewn llenwadau.

⁵ **Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1).** Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r fframwaith ar gyfer dadheintio mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol yng Nghymru.

Roedd yr holl offerynnau yn cael eu pecynnu (eu bagio) ar ôl eu sterileiddio, a'u dyddio â dyddiad prosesu. Roedd yr holl offerynnau a archwiliwyd o fewn y dyddiad ac roedd system fewnol yn bodoli i wirio hyn, o fewn amserlenni penodol. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas yn bodoli i warchod cleifion rhag traws-heintiad.

Cawsom fod yr holl staff a oedd yn ymgymryd â threfniadau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i arddangos gallu yn eu dyletswyddau.

Defnyddiai'r practis restr wirio wedi ei lamineiddio ar gyfer gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd mewn perthynas ag offer glanhau yn y meddygfeydd. Roedd staff yn ticio unwaith yr oedd wedi ei gwblhau ac yna'n ei lanhau er mwyn ei ddefnyddio drannoeth. Gwelsom hefyd bod y practis yn defnyddio cofnodwr data a stribedi prawf i sicrhau bod offer yn y ddwy ystafell ddadheintio yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau o'i ofynion rheoli heintiad yn unol â chanllawiau WHTM 01 05. Golygai hyn bod systemau'n bodoli i fonitro cydymffurfiad parhaus â gofynion rheoli heintiad.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r meddygfeydd ac ar y cyfan cafwyd eu bod yn lân, gydag offer priodol ac wedi eu trefnu'n dda gyda'r holl gyfarpar perthnasol er diogelwch cleifion a staff.

Gwelsom mewn un feddygfa fod bylchau rhwng borden y wal a'r llawr a bod perygl i faw/wastraff clinigol fynd i mewn a hel yno.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid selio'r bylchau rhwng borden y wal a'r llawr yn y feddygfa benodol i hwyluso glanhau hawdd ac effeithiol.

Roedd nifer digonol o offerynnau a chyfarpar deintyddol, oll mewn cyflwr da, wedi eu storio'n ddiogel yn y meddygfeydd. Cawsom fod cyflenwadau digonol o eitemau untro ac offer amddiffynnol.

Cawsom fod nifer o ddeunyddiau yn y meddygfeydd deintyddol allan o ddyddiad, er enghraifft, dau gyfansawdd gyda bond⁶.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod deunyddiau allan o ddyddiad yn cael eu symud ymaith a'u hadnewyddu yn y meddygfeydd a bod hyn yn cael ei fonitro'n barhaus.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais fecanyddol sy'n cywasgu aer i'w storio ac sy'n cael ei ddefnyddio mewn offer llaw a chelfi deintyddol eraill a yrrir gan aer) yn cael ei gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod profion cyfarpar symudol (PAT) wedi eu gwneud i sicrhau bod cyfarpar trydanol bach yn addas i'r pwrpas ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Ar y cyfan, cawsom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan roedd ansawdd cofnodion cleifion yn y practis yn dda.

Fodd bynnag, cawsom hyd i rai anghysonderau yn y meysydd canlynol:

- Er bod y practis yn rhoi cyngor ar roi'r gorau i ysmegu i gleifion, nid oedd hyn bob amser yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y claf. Cynghorwyd y practis i gofnodi os oedd cyngor o'r fath wedi ei roi.
- **Cawsom nad oedd deintyddion yn gyson yn cofnodi cynlluniau triniaeth ac opsiynau triniaeth yng nghofnodion y cleifion yn ddigon manwl, er enghraifft, cynnwys y manylion ynglŷn â thriniaeth a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd. Golygai hyn na welsom dystiolaeth fod cleifion wedi derbyn gwybodaeth ddigonol i roddi cydsyniad gwybodus. Ni chafwyd unrhyw broblem gyda chydsyniad ar gyfer cleifion tawelyddiad ymwybodol.**

⁶ Mae **bondio** yn golygu gosod resin cyfansawdd lliw dannedd (plastig) i drwsio dant sydd wedi dirywio, torri, sy'n afliwiedig, i wneud i'r dant edrych yn hirach, ac fel opsiwn amgen cosmetig yn lle llenwadau amalgam

- Cawsom, mewn nifer fechan iawn o gofnodion lle'r oedd risg uwch o afiechyd cig y dannedd, nad oedd y siart poced 6 phwynt cysylltiedig (i asesu afiechyd cig y dannedd) wedi ei gwblhau. Trafodwyd hyn gyda'r prif ddeintydd ac fe'n sicrhawyd bod hyn yn cael ei wneud ar y cyfan.
- Mewn sampl o gofnodion, cawsom nad oedd adalw yn cael ei gofnodi o fewn canllawiau NICE, ac nad oedd canfyddiadau clinigol penodol bob amser yn cael eu cofnodi. Awgrymwyd bod y practis yn ymgymryd ag archwiliad i weld lle'r oedd y materion hyn yn codi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn cadw a chwblhau cofnodion cleifion cywir, gan gynnwys manylion digonol o opsiynau triniaeth a'r driniaeth a ddarparwyd, a chofnodi canfyddiadau clinigol penodol o radiograffau.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dîm o staff ymroddedig, gofalgar, yn canolbwyntio ar y cleifion, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer archwiliadau a gofynion recriwtio staff. Roedd agweddau ar drefniadau amddiffyn oedolion a threfniadau cwyno lle'r oedd angen gwella.

Staff

Roedd y practis wedi bod ar agor er 2007, ac roedd yn darparu gwasanaethau GIG yn unig. Roedd y prif ddeintydd yn cymryd cyfrifoldeb am redeg y practis o ddydd i ddydd, ynghyd ag aelodau staff a oedd â chyfrifoldebau rheoli dirprwyedig. Roedd y staff y bu i ni siarad â hwy yn frwdfrydig, ymroddedig, yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Arferai'r practis fod yn rhan o gynllun peilot GIG Cymru yn seiliedig ar hyrwyddo iechyd ac roedd aelod staff wedi hyfforddi fel addysgwr iechyd deintyddol. Roedd y cyllid ar gyfer hyn wedi dod i ben yn ddiweddar a bu'n gyfnod trosiannol anodd i'r tîm staff, a oedd wedi parhau i fod yn ymroddedig i'w gwaith.

Roedd yr holl ddeintyddion wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gwelsom sampl o gontractau cyflogaeth a ddaliwyd gan y gweithwyr. Gwelsom fod gan yr holl staff clinigol yswiriant indemniad ar gyfer eu practis clinigol.

Gwelsom fod y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau priodol i sicrhau addasrwydd gweithwyr proffesiynol deintyddol a oedd yn gweithio yn y practis.

Gwelsom sampl o gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer staff clinigol. Golygai hyn bod y practis wedi cymryd rhagofalon i sicrhau bod staff wedi eu hamddiffyn yn erbyn afiechydon sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

Cawsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus wedi ei gwblhau gan staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w rôl.

Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd tîm a chyfarfodydd nyrsys. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd a sicrhodd y practis ni bod cofnodion diweddaraf y cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw, er mai rhai hanesyddol oedd y cofnodion a welsom ni. Gwelsom fod amrywiol bynciau yn cael eu trafod a bod aelodau'r tîm yn cyflwyno eu pryderon a'u pynciau eu hunain er mwyn eu hystyried. Gwelsom enghreifftiau bod rhai arferion wedi newid o ganlyniad i drafodaethau yng nghyfarfodydd y tîm. Golygai hyn bod

gan y tîm fforymau mwy ffurfiol i godi pryderon a bod dysgu yn digwydd o ganlyniad, i wella'r practis.

Dyweddodd aelodau'r staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a gwelsom sampl o gofnodion o'r flwyddyn hon a oedd yn cadarnhau hyn. Golygai hyn bod staff yn cael cyfarfodydd ffurfiol er mwyn cael cymorth a datblygiad proffesiynol.

Amddiffyn Plant ac Oedolion

Cawsom fod staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn bodoli ac roedd manylion cyswllt ar gyfer timau plant ac oedolion yn cael eu harddangos er mwyn ei gwneud yn hawdd cael hyd iddynt, pe byddai angen i staff wneud atgyfeiriad.

Y prif ddeintydd a oedd yn arwain ar faterion amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (POVA). Dywedodd tîm y practis wrthym iddynt gael trafferthion yn cael hyfforddiant POVA ond bod staff wedi eu cofrestru ar gwrs ym mis Hydref 2015.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i holl aelodau staff ymgymryd â hyfforddiant POVA er mwyn medru adnabod a gweithredu ar broblemau a phryderon.

Cwynion a Sicrhau Ansawdd

Gwnaethom edrych ar y drefn gwyno yn fanwl a chafwyd bod anghysonderau yn yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffeil print mawr, ar yr hysbysfwrdd yn y man aros ac yn y ffolder polisi. Yn yr amrywiol ffynonellau gwybodaeth hyn roedd amserlenni gwahanol ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Golygai hyn na fedrwn fod yn sicr y byddai cleifion yn derbyn gwybodaeth glir a chyson pe byddent yn dymuno cwyno neu fod y polisi yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella'⁷.

Dylid hefyd cynnwys manylion cyswllt Cyngor Iechyd Cymuned yn yr wybodaeth ar gwyno, fel bod cleifion yn ymwybodol o sut i gysylltu â nhw i gael cymorth gyda chwyno.

⁷ **Gweithio i Wella** - nod hyn yw ei gwneud yn haws i gleifion a gofawyr fynegi pryderon. Mae'n cyflwyno un dull mwy integredig yn dwyn ynghyd reolaeth cwynion, digwyddiadau a hawliadau, yn seiliedig ar egwyddor 'archwilio unwaith, archwilio'n well'.

Dywedodd staff wrthym fod cwynion yn cael eu cofnodi, er nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gwynion yn ddiweddar. Nid oedd lle canolog penodol i gadw cwynion a oedd ar wahân i gofnodion cleifion. Nid oedd sylwadau a phryderon llafar ac anffurfiol yn cael eu cofnodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

- ***Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ar gwyno yn gyson a bod yr amserlenni yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella'. Dylid ychwanegu gwybodaeth am y Cyngor Iechyd Cymuned i'r wybodaeth ar gwyno.***
- ***Rhaid i'r practis sicrhau bod cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cofnodi'n ganolog a dylai ystyried sut i ddefnyddio'r ffynhonnell wybodaeth hon i wella'r practis.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn codi pryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol â'r deintyddion. Roedd polisi chwythu'r chwiban yn bodoli y gallai'r staff ei ddefnyddio i godi pryderon yn ffurfiol a mynd â nhw ymhellach.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymgymryd ag arolygiadau cymheiriaid er nad oedd y rhain yn cael eu cofnodi. Cynghorwyd y practis i gofnodi'r rhain. Gwelsom fod archwiliadau wedi eu hymgydryd yn y practis. Mae hyn yn golygu bod gan y practis systemau i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Polisiâu a Gweithdrefnau

Ar y cyfan, cawsom fod gan y practis amrediad o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol a oedd wedi eu diweddarau. Cawsom fod y polisiâu yn glir, yn fanwl ac yn lleol i'r practis. Cynghorwyd y practis y byddai rhai polisiâu yn elwa o gael eu dyddio a chael dyddiad adolygu er mwyn medru cyflwyno tystiolaeth bod yr wybodaeth yn cael ei hadolygu.

Gwelsom fod y polisi rheoli heintiad yn dyfynnu'r canllawiau rheoli heintiad a oedd yn benodol i'r trefniadau yn Lloegr er bod y practis yn archwilio ei hun yn ôl y canllawiau sy'n benodol i Gymru. Cynghorwyd y practis i adolygu a diweddarau'r polisi i adlewyrchu hyn.

Ansawdd yr Amgylchedd

Cawsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, croesawgar, hygyrch i'r cleifion dderbyn triniaeth.

Lleolir y practis yn ardal ganolog y Fenni. Roedd maes parcio gyda thâl ar gael gerllaw.

Roedd y practis yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac roedd toiled cwbl hygyrch i gleifion.

Cawsom fod y practis yn cynnig amgylchedd cyfforddus. Yn fewnol, roedd yr amgylchedd wedi ei oleuo, ei wresogi, ei awyru yn briodol ac roedd yn lân a thaclus.

Gwelsom fod y coridor yn arwain at y meddygfeydd wedi dioddef peth difrod dŵr. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod hyn oherwydd difrod i'r adeilad drws nesaf a oedd yn golygu, bob tro roedd yn bwrw glaw, roedd diferiad yn achosi difrod dŵr i'r coridor, y muriau a'r carpedi ac a oedd wedi effeithio'r system drydanol yn y gorffennol. Trafodwyd hyn gyda'r prif ddeintydd, a esboniodd bod perchenogion yr adeilad drws nesaf wedi gadael y wlad ac felly roedd yn anodd iawn datrys y broblem. Dywedodd wrthym ei fod wedi cysylltu â'r holl awdurdodau priodol ond nad oedd unrhyw beth pellach y gellid ei wneud ar hyn o bryd. Cynghorwyd y practis i barhau i adolygu'r sefyllfa fel bod y broblem yn cael ei datrys cyn gynted ag y bo modd.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion yn cael ei harddangos y tu allan a'r tu mewn i'r adeilad. Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, oriau agor a rhifau mewn argyfwng i'r cleifion eu defnyddio. Roedd bandiau prisiau triniaeth GIG yn cael eu harddangos yn eglur yn y man aros.

Roedd cyfleusterau priodol a digonol i'r staff ar gael. Roedd y toiledau i'w gweld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau addas i olchi dwylo i leihau traws-heintiad.

Roedd y man aros o faint addas i'r nifer o gleifion a oedd yn bresennol ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd staff y dderbynfa yn ymwybodol o, ac yn gwybod sut i gadw cyfrinachedd cleifion. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen. Awgrymwyd y gallai'r practis arddangos deunydd hyrwyddo iechyd priodol i'r cleifion ei ddefnyddio.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân ac roedd y peiriannau diffodd tân wedi eu harchwilio. Roedd mesurau diogelwch priodol yn bodoli i rwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd cofnodion cleifion yn ddiogel dan glo ac roedd copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r cofnodion electronig bob dydd. Golygai hyn fod y practis yn cymryd rhagofalon addas i amddiffyn gwybodaeth am gleifion.

Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Gateway OHS Limited yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, pan gytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Gateway OHS Limited

Dyddiad yr Arolygiad: 30 Mehefin 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|--|--------------------------|------------------|----------|
| | Profiad y claf | | | |
| 7 | <p>Rhaid i'r practis sicrhau cydymffurfiaid ag 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol trwy sicrhau bod y wefan yn dangos dyddiad pan gafodd ei diweddarau ddiwethaf a'i bod yn rhestru holl gymwysterau proffesiynol y gweithwyr deintyddol proffesiynol (a'r wlad o ble daw'r cymhwyster dan sylw) a rhif cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.2, GDC 'Egwyddorion Hysbysebu Moesegol' 2012]</p> | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--------------------------|------------------|----------|
| Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal | | | | |
| 9 | <p>Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn gweithredu system effeithiol i wirio dyddiadau dod i ben cyfarpar brys ac yn adnewyddu cyfarpar pan fo angen. Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfarpar dadebru ar gael bob amser.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; GDC Safonau 6.2.6 a 6.6.6, Cyngor Dadebru DU]</p> | | | |
| 9 | <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyffuriau yn cael eu cadw ar dymheredd priodol, gan ddilyn cyfarwyddiadau storio a restrir ar y cyffuriau.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.6]</p> | | | |
| 9 | <p>Ni ddylid cynnwys unrhyw gyffuriau nas defnyddir yn y pecyn cartref a rhaid eu gwaredu yn ddiogel i leihau'r risg o'u defnyddio mewn argyfwng.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.6]</p> | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--------------------------|------------------|----------|
| 10 | <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod modelau carreg yn cael eu gwaredu ar wahân i wastraff arall.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1; BDA, Gwastraff Gofal Iechyd 2014]</p> | | | |
| 10 | <p>Dylai'r staff ddefnyddio menig cryfion ar gyfer dadheintio offerynnau fel yr argymhellir yn WHTM 01 05.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.4; WHTM 01 05 Pennod 16 ac Adran 6.15]</p> | | | |
| 11 | <p>Rhaid selio'r bylchau rhwng borden y mur a'r llawr yn y feddygfa a adnabuwyd er mwyn hwyluso glanhau hawdd ac effeithiol.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.4]</p> | | | |
| 12 | <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod deunyddiau allan o ddyddiad yn cael eu tynnu a'u disodli mewn meddygfeydd a bod hyn yn cael ei fonitro'n barhaus.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1]</p> | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------|--|--------------------------|------------------|----------|
| 13 | <p>Rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn cadw a chwblhau cofnodion cleifion cywir, gan gynnwys manylion digonol o opsiynau triniaeth a'r driniaeth a ddarparwyd; a chofnodi canfyddiadau clinigol penodol o radiograffau.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1.1]</p> | | | |
| Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | | |
| 15 | <p>Rhaid i bob aelod staff ymgymryd â hyfforddiant POVA er mwyn medru adnabod a gweithredu ar broblemau a phryderon.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddiaeth Cyffredinol ar gyfer Timau Deintyddol, Safon 8.5]</p> | | | |
| 16 | <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth am gwynion yn gyson a bod amserlenni yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella'. Dylid ychwanegu gwybodaeth am y Cyngor</p> | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------|--|--------------------------|------------------|----------|
| | <p>lechyd Cymuned at yr wybodaeth ar gwynion.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cofnodi'n ganolog, ac ystyried sut i ddefnyddio'r ffynhonnell wybodaeth hon fel ffordd o wella'r practis.</p> <p>[Safonau lechyd a Gofal, Safon 6.3; Rheoliadau'r Gwasanaeth lechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011; Gweithio i Wella 2011]</p> | | | |
| Ansawdd yr Amgylchedd | | | | |
| | Ddim yn Berthnasol | | | |

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad:

